**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty**
**Minister for Finance and Leader of the House**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref
Holl Aelodau'r Cynulliad

12 Rhagfyr 2012

Annywl Cydweithiwr,

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu fy mod heddiw wedi gosod y fersiwn ddiwygiedig o Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012. Mae'r Rheoliadau hyn a'u Memoranda Esboniadol ar gael ar y dudalen Dogfennau a Osodwyd ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol yn http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm.

Mae'r diwygiadau a wnaed i'r Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012 o'u cymharu â'r rhai a osodwyd gerbron ar 5 Rhagfyr 2012 i'w gweld isod:-

- 1(3)These Regulations apply in relation to the financial year beginning on 1 April 2013.

- 1(4) On or before 1 January 2014 the Welsh Ministers must publish draft regulations under section 13A(4) of the 1992 Act in respect of the financial year beginning 1 April 2014 and subsequent financial years.

Effaith ymarferol y cymal machlud yn rheoliad 1(3), a'r ddyletswydd yn rheoliad 1(4) i gyhoeddi set newydd o reoliadau drafft erbyn 1 Ionawr 2014, yw sicrhau y bydd Gweinidogion Cymru yn cyflwyno rheoliadau dilynol mewn da bryd, fel y gellir craffu'n llawn ar gynlluniau mewn da bryd cyn eu cyflwyno yn y dyfodol.

Diwygiwyd y Nodyn Esboniadol i'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â hwy hefyd, i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

Rwyf hefyd wedi ailosod Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012. Ni wnaed unrhyw ddiwygiadau i'r Rheoliadau hyn, gan nad oes

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

angen unrhyw rai. Effaith paragraff 6(1)(e) o Atodlen 1B i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yw mai dim ond os bydd awdurdod lleol yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd a nodir mewn rheoliadau sy’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gyflwyno cynlluniau gostyngiadau’r dreth gyngor, y bydd unrhyw gynllun diofyn a ragnodir mewn rheoliadau yn dod i rym. Dim ond yn ystod y cyfnod y bydd y rheoliadau Gofynion Rhagnodedig sy’n gosod y ddyletswydd i fod â chynllun yn gymwys, y bydd Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012 yn cael unrhyw effaith ymarferol felly. Blwyddyn ariannol 2013-14 yw’r cyfnod hwnnw, yn rhinwedd rheoliad 1(3) o’r rheoliadau hynny.

Diweddarwyd y Nodyn Esboniadol i’r rheoliadau Cynllun Diofyn er mwyn egluro’r pwynt hwn, a cheir manylion pellach am hyn yn y Memorandwm Esboniadol sy’n cyd-fynd â hwy.



**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Minister for Finance and Leader of the House